

Cyngor Cymuned Llanelian (286)

Cofnodion cyfarfod Nos Fawrth Ebrill 11, 2017 a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Penysarn am 7yh.

Presennol: Dafydd Griffiths, Hefina Williams Thomas Jones, John Griffiths, Elfyn Hughes, Glenys Jones, Helen Hughes, Gordon Hayes, Carol Whitaker, Cyng Wil Hughes, Cyng Richard Jones

Ymddiheuriadau: Cyng Aled Jones

Yn bresennol: Carli Evans Thau (Clerc)

1 Croeso

Cadeiriwyd y cyfarfod gan Dafydd Griffiths ac fe groesawyd pawb i'r cyfarfod.

2 Datgan Diddordeb

Cyng Wil Hughes – Materion Cynllunio

Cyng Richard Jones – Materion Cynllunio

3 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf

Derbyniwyd y cofnodion yn gywir cynnig Hefina Williams, eilio Thomas Jones.

4 Materion yn Codi o'r Cofnodion

4.1 Materion Prifffyrdd

Cafwyd ebost gan Cyng Aled Jones yn nodi ymateb gan Alun Roberts (Uwch Swyddog Traffig a Pharcio CSYM) - Mae yn argymhell mesuriadau i wella'r sefyllfa i gerddwyr y tu allan i'r ysgol gan gynnwys marciau fordd ger y groesfan, a hefyd blwch wedi'i glustnodi ar gyfer y bws mini gyferbyn a giatau'r ysgol. Bydd hefyd arolwg cyflymdra i'w gynnal yn fuan. Unwaith bydd hyn wedi'i gwblhau bydd posib edrych ar fesurau ychwanegol os oes angen.

Daw llythyr gan Stephanie Williams ar ran Cymdeithas Rhieni ac Athrawon yr Ysgol yn nodi pryderon am ddiogelwch plant a rheini ar y lon tu allan i'r ysgol. Gofynnwyd i'r Cyngor gefnogi eu cais am dwmpathau cyflymdra ar hyd y lon.

Cytuno ysgrifennu at Mrs Williams yn cadarnhau bod y Cyngor Cymuned wedi bod mewn trafodaethau a'r Cyngor Sir ers peth amser a bod swyddogion wedi ymweld a'r safle. Cytuno hefyd cynnwys copi o ebost Alun Roberts er gwybodaeth.

Cytuno ymateb i ebost Alun Roberts yn gofyn am ddiweddariad pellach ac hefyd a fyddai posib i'r Cyngor Cymuned gael rhan mwy blaenllaw yn y broses i benderfynnu pa fesuriadau fydd yn cael eu mabwysiadu.

Diolchwyd i Cyng Aled Jones am drefnu bod y llinellau melyn gyferbyn a'r swyddfa bost yn cael eu ail-baentio – mae'r gwaith wedi'i gwblhau.

Diolchwyd i Cyng Wil Hughes am drefnu glanhau'r gulfan gyferbyn ag Eglwys Llanwenllwyfo.

4.2 Enwau Tai

Daw ebost gan Paul Roberts yn cadarnhau y bydd yn fodlon cwrdd a chynrychiolaeth o'r Cyngor ac adrodd yn ol i Alec Pickering. Cytuno mai Hefina Williams, Thomas Jones a Helen Hughes fyddai yn cwrdd ag o. Y clerch i gadarnhau dyddiad, amser a lleoliad cyn gynted a phosib.

Mae'n debyg bod y Cynulliad wedi bod yn trafod pwysigrwydd enwau traddodiadol Cymreig yn ddiweddar ac wedi gwrthwynebu deddf i'w diogelu! Cytuno ysgrifennu at Carwyn Jones

ac Rhun ap Iorwerth gan nodi esiampl y gymuned hon a phwysigrwydd etifeddiaeth a hanes. Dafydd Griffiths, Hefina Williams a'r clerc i ddrafftio ymateb ar ran y Cyngor.

4.3 Rhos Newydd

Nid oes penderfyniad gan yr Arolygwr Gynllunio hyd yma. Cytuno cadw'r eitem ar yr agenda nes bydd gwybodaeth pellach.

4.4 Golau'r Neuadd

Mae Alan Phillips wedi cwrdd ag Elfyn Hughes yn y Neuadd i gadarnhau pa waith sydd ei angen.

4.5 Hysbysfwrdd

Mae'r hysbysfwrdd i fod i gael ei osod wythnos yma. Mae Mon CF yn fodlon ei gosod am gost ychwanegol o £10. Pawb yn fodlon iddynt wneud hynnu.

4.6 Swyddfa Bost

Daw llythyr swyddogol yn cadarnhau newidiadau dros dro i oriau agor y swyddfa bost. Nodwyd bod yr adeilad i'w werthu ar ocsiwn ddiwedd y mis. Nodwyd pryder bod rhai unigolion yn y gymuned yn codi pensiwn ar ddyddiau pan mae'r post wedi cau ac felly yn gorfod cael tacsï i fynd i rywle arall. Cytuno cysylltu a Carol Williams am gadarnhad os oes posib codi pensiwn ar ddiwrnod gwahanol petai angen h.y. diwrnod yn gynt tra bod y swyddfa bost ar agor.

4.7 Meinciau

Cytuno bod fframiau'r meinciau dan sylw mewn cyflwr da ac mai dim ond y coed sydd angen ei newid. Cytuno cysylltu a R Jones (saer coed) i wneud y gwaith.

4.8 Parcio ar y glaswellt ar y gyffordd a'r A5025

Mae ceir yn dal i gael eu parcio ar y glaswellt ac o ganlyniad nid yw contractwyr torri gwair y Cyngor Sir wedi gallu torri'r glaswellt yn ei gyfanrwydd. Mae pryderon yn parhau am ddiogelwch pobl sy'n arafu ar y gongl ddrwg ger y gyffordd i edrych ar y cerbydau.

Cytuno ysgrifennu at y Cyngor Sir eto i bwysleisio bod ceir yn cael eu parcio a'u gwerthu ar eu tir hwy heb ganiatad; bod blodau wedi'i plannu ar y llecyn tir; bod cerbydau ar werth yn fler i'r golwg wrth i bobl ddod i fewn i'r pentref; nad yw contractwyr torri gwair yn gallu cwblhau eu gwaith tra bod ceir wedi'i parcio yno; bod y Cyngor yn bryderus am ddiogelwch defnyddwyr y lon wrth i rai arafu ac edrych ar y ceir. Cytuno gofyn eto am folards coed i er mwyn atal pobl rhag gallu gyrru ar y glaswellt.

4.9 Cronfa Ty Moel Isaf

Mae'r taliad cyntaf o £100,000 wedi cyrraedd gan y cyfreithiwr erbyn hyn.

4.10 Etholiad

Deg enw sydd wedi eu henwebu ar gyfer y Cyngor felly ni fydd etholiad a bydd yr aelodau presennol yn parhau yn gynghorwyr. Mae un sedd wag yn ward Eilian.

Nododd Elfyn Hughes ei siom o dderbyn y llythyr anghywir mewn camgymeriad. Roedd yr aelodau yn pryderus iawn bod y fath gamgymeriad wedi gallu digwydd ac o agwedd swyddogion y Cyngor sir wrth ddelio a'r camgymeriad hwnw.

Cytuno ysgrifennu at Dr Gwynne Jones, y gofyn sut bod y fath gamgymeriad wedi digwydd a sut mae datrys y broblem i'r dyfodol – oes ceisiadau annilys wedi ei derbyn tybed? Nodwyd bod rhai aelodau wedi cael dau gopi o'r un llythyr yn cadarnhau eu henwebiad.

Gofynnwyd i'r cyngorwyr sirol adrodd yn ol i'r Cyngor Sir. Dim ond unwaith pob pedair mlynedd fydd etholiad ledled yr ynys, a dyma prif rol y swyddfa etholaeth felly pam fod camgymeriad wedi gallu digwydd?

5 Caeau Chwarae

Cafwyd adroddiad gan Carol Whitaker o gyfarfod yr is-bwyllgor caeau chwarae.

- Cytuno gosod rhannau newydd wedi'i gwneud o blastic yn lle'r coed sydd wedi pydru. Y clerch i gadarnhau gyda Playquest i'r gwaith gael ei gwblhau cyn gynted a phosib.
- Daw pris gan Medwyn Owen am arolygu'r caeau chwarae. Cytuno byddai arolygon chwarterol yn fwy buddiol nac un arolwg y flwyddyn. Mae'r pris yn gymharol a'r hyn oedd ROSPA eu hunain yn ei godi am y gwaith.
- Biniau – nododd Hefina Williams bod bin y cae chwarae wedi ei losgi a bod olwyn ar goll. Mae angen dod ag o at y tai gan nad yw'r lori yn aros i'w wagio o'r cae chwarae. Roedd Cyng Aled Jones wedi gofyn am fin yn y gorffennol. Cytuno ei holi eto.
- Meinciau – mae Dafydd Griffiths wedi siarad a Richard Williams er mwyn gosod darnau ychwanegol ar y meinciau metel. Mae Gordon Hayes yn edrych ar brisiau ar gyfer meinciau o blastic wedi ei ailgylchu er mwyn newid y rhai coed fel bod angen.

6 Cynllunio

6.1 Ceisiadau – roedd tri cais i'w ystyried

- 50 Tynrhos (24C342) – dim sylw
- 2 Tan y Bryn (24C297B) – dim gwrthwynebiad ond annog defnyddio enwau Cymreig
- Auckland (24C344) – cefnogi busnes lleol a dim gwrthwynebiad i'r cais ond tynnu sylw i'r broblem trafniadaeth posib ar ben yr allt.

6.2 Penderfyniadau – cafwyd wybod am benderfyniadau y Cyngor Sir fel a ganlyn:

- Tir ger Ex Joint Council Houses – gwrthodwyd
- Apel Bod Hyfryd – gwrthodwyd

7 Cytundeb y Clerch a Pholisiau'r Cyngor

Cyflwynwyd gan yr is-bwyllgor cytundeb cyflogaeth y clerch a'r swydd ddisgrifiad wedi ei seilio ar fodel NALC. Cymeradwywyd y dogfennau.

Nodwyd bod y gytundeb yn cyfeirio at nifer o bolisiau ac fe gdarnhawyd bod gwaith wedi dechrau i ddatblygu rheini. Cynnigwyd bod yr un aelodau yn cwrdd eto i drafod y polisiau mewn manylder cyn eu cyflwyno i'r Cyngor Llawn i'w ystyried. Cytuno bod angen gofyn i'r swyddog monitro am gyngor ynglyn a threfn polisi disgyblu. Bydd y pwyllgor yn cwrdd unwaith bydd cyngor wedi'i dderbyn gan Lynn Ball.

8 Materion Ariannol

8.1 Taliadau

Cymeradwywyd y taliadau canlynol:

£82.00 John Roberts (Archwiliad 2015/16)

£639.73 Cyflog Mawrth (gan gynnwys tal Mynwent Bosra)

£228.04 Costau Clerch Ionawr-Mawrth

8.2 Adroddiad Blynyddol

Dosbarthwyd adroddiad yn dangos incwm a gwariant y Cyngor fesul chwarter dros y flwyddyn ariannol diwethaf ac fe drafodwyd a chymeradwywyd ei gynnwys.

8.3 Archwiliad

Bydd yr archwiliad mewnol yn cymryd lle Mai 12-15, gyda'r archwiliad allannol ddiwedd mis Mehefin. Nodwyd bod angen cyflwyno nifer o ddogfennau gwahanol yn ogystal a'r wybodaeth arferol.

8.4 Gofynnion yr Archwiliwr

Dosbarthwyd gopiau o adroddiad yn trafod gofynnion yr archwiliwr. Derbyniwyd cynnwys yr adroddiad a diolchwyd i'r clerch am ei baratoi.

Trafodwyd cynnwys y gofrestr asedau. Nodwyd nad oedd y cofgolofn wedi ei gynnwys er mai'r Cyngor oedd yn gyfrifol ohono. (Nodwyd hefyd bydd angen edrych ar wella'r mynediad at y golofn ymhen amser). Cytuno byddai adolygu'r gofrestr asedau mewn manylder ym Mai/Mehefin cyn bod polisi yswiriant y Cyngor yn ddyledus.

8.5 Ceisiadau am Arian

Trafodwyd cais Eglwys Llanwenllwyfo eto gan gynabod pwysigrwydd yr Eglwys i'r ardal yn hanesyddol. Cytuno dylid edrych ar y cais mewn manylder eto. Trafodwyd y posibilrwydd o gyfrannu o Gronfa Ty Moel Isaf gan mai dim ond £500 sydd wedi ei glustnodi ar gyfer rhoddion yn y gylideb. Bydd hefyd angen edrych ar giat newydd i Mynwent Llaneilian yn unol a dymuniad Mrs Mair Morris.

9 Gohebiaeth

9.1 Ail-gyfeirio llwybr cyhoeddus – mae'r Cyngor Sir yn bwriadu ail-gyfeirio'r llwybr sydd ar hyn o bryd yn dod drwy ganol iard Henblas ac Eilian Court. Nid oedd gwrthwynebiad ar yr amob eu bod wedi eu harwyddo'n glir.

9.2 Comisiwn Beddau Milwrol – daw ebost gan Roy Ashworth tyn nodi bod cynrychiolydd wedi bod yn y fynwent yn chwilio am fedd. Y clerch i wneud ymholiadau am y grant y soniwyd amdano tuag at gynnal y bedd.

10 Unrhyw Fater Arall

10.1 Nodwyd bod wal wedi disgyn i'r llwybr rhwng Dwyfor ac Anedd ac nad oedd posib cynnal y llwybr fel ag yr oedd. Y clerch i gysylltu a'r Cyngor Sir ymweld dros eu hunain.

10.2 Nodwyd mai hwn oedd y cyfarfod diwethaf i Dafydd Griffiths a Hefina Williams yn Gadeirydd ac Is-gadeirydd a diolchwyd iddynt am eu gwaith.

10.3 Cafwyd gair o ddiolch gan Cyng Wil Hughes am y gefnogaeth dros y pedair mlynedd diwethaf. Ategwyd y diolch gan nodi bod yn braf cael cefnogaeth cyngorwyr sirol yn y cyfarfodydd misol.

11 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

Bydd y cyfarfod nesaf Mai 9, 2017 am 7 o'r gloch.

Bu'r cyfarfod orffen am 9.15

**Arwyddwyd
Dafydd Griffiths
Cadeirydd**